



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 Rhif 414 (Cy.50)

2013 No. 414 (W.50)

**TRWYDDEDU (MOROL),
CYMRU**

**LICENSING (MARINE),
WALES**

**RHEOLI MOROL,
CYMRU**

**MARINE MANAGEMENT,
WALES**

Gorchymyn Trwyddedu Morol
(Dirprwyo Swyddogaethau)
(Cymru) 2013

The Marine Licensing (Delegation
of Functions) (Wales) Order
2013

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirprwyo arfer swyddogaethau penodol Gweinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

This Order delegates the exercise of certain functions of the Welsh Ministers as a licensing authority under the Marine and Coastal Access Act 2009 ("the 2009 Act") to the Natural Resources Body for Wales.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu (yn bennaf y rhai sy'n ymwneud â gwneud is-ddeddfwriaeth) sy'n swyddogaethau sydd wedi eu heithrio ac na ellir eu dirprwyo yn rhinwedd adran 98(5)(a) o Ddeddf 2009 (erthygl 2(2)).

This Order does not apply to those functions of the licensing authority (mainly relating to the making of subordinate legislation) which are excepted functions and not delegable by virtue of section 98(5)(a) of the 2009 Act (article 2(2)).

Mae erthygl 3 yn dynodi swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu o dan Ran 4 (trwyddedu morol) o Ddeddf 2009 (gan gynnwys swyddogaethau o dan is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Rhan honno).

Article 3 designates functions of the Welsh Ministers as licensing authority under Part 4 (marine licensing) of the 2009 Act (including functions under subordinate legislation made under that Part).

Mae erthygl 4 yn darparu bod y swyddogaethau dynodedig yn arferadwy gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, yn gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu (yn hytrach na bod yn arferadwy gan yr awdurdod hwnnw, neu mewn perthynas ag ef). Mae gan yr awdurdod trwyddedu'r pŵer i roi cyfarwyddiadau i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru mewn cysylltiad â chyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig (*gweler* adran 100 o Ddeddf 2009, y mae ei phŵer yn swyddogaeth sydd wedi ei heithrio).

Article 4 provides that the designated functions are exercisable by or in relation to the Natural Resources Body for Wales acting on behalf of the licensing authority (instead of being exercisable by or in relation to that authority). The licensing authority has the power to give directions to the Natural Resources Body for Wales with respect to the performance of the delegated functions (*see* section 100 of the 2009 Act, which power is an excepted function).

Mae erthygl 5 yn diwygio erthygl 5 o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 (“Gorchymyn 2011”). Mae erthygl 5 o Orchymyn 2011 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd nad oes angen trwydded forol ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaredu neu adfer gwastraff (ac mae'n gweithredu, yn rhannol, Gyfarwydddeb 2008/08/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t.3)). Mae'r cyfeiriadau at yr awdurdod trwyddedu yn erthygl 5(4) a (5) wedi eu hamnewid gan gyfeiriadau at Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

Mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth o ganlyniad i ddirprwyo swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu o dan Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011.

Mae erthygl 7 yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbedion i sicrhau parhad rhwng pethau a wneir gan Weinidogion Cymru, neu mewn perthynas â hwy, fel awdurdod trwyddedu cyn 1 Ebrill 2013 a phan ymgymera Corff Adnoddau Naturiol Cymru ag arfer swyddogaethau penodol yr awdurdod trwyddedu yn unol â'r Gorchymyn hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

Article 5 amends article 5 of the Marine Licensing (Exempted Activities) (Wales) Order 2011 (the “2011 Order”). Article 5 of the 2011 Order makes provision about when a marine licence is not required for activities relating to the disposal or recovery of waste (and implements in part Directive 2008/08/EC of the European Parliament and Council on waste (OJ No L 312, 22.11.2008, p.3)). References to the licensing authority in article 5(4) and (5) are substituted with references to the Natural Resources Body for Wales.

Article 6 makes provision consequential on the delegation of the Welsh Ministers' functions as a licensing authority under the Marine Licensing (Appeals Against Licensing Decisions) (Wales) Regulations 2011.

Article 7 contains transitional provisions and savings to ensure continuity between things done by, or in relation to, the Welsh Ministers as licensing authority prior to 1 April 2013 and the assumption by the Natural Resources Body for Wales of the exercise of certain functions of the licensing authority pursuant to this Order.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this instrument.

2013 Rhif 414 (Cy.50)

**TRWYDDEDU (MOROL),
CYMRU**

**RHEOLI MOROL,
CYMRU**

**Gorchymyn Trwyddedu Morol
(Dirprwy Swyddogaethau)
(Cymru) 2013**

Gwnaed 26 Chwefror 2013

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 26 Chwefror 2013

Yn dod i rym 1 Ebrill 2013

Mae Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 98(1) a 316(1)(b) o'r Ddeddf honno, a chan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas ag atal, lleihau a rheoli gwastraff(3).

Yn unol ag adran 98(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn caniatáu i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwy Swyddogaethau) (Cymru) 2013.

2013 No. 414 (W.50)

**LICENSING (MARINE),
WALES**

**MARINE MANAGEMENT,
WALES**

**The Marine Licensing (Delegation
of Functions) (Wales) Order
2013**

Made 26 February 2013

*Laid before the National
Assembly for Wales* 26 February 2013

Coming into force 1 April 2013

The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1), make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 98(1) and 316(1)(b) of that Act, and by section 2(2) of the European Communities Act 1972(2).

The Welsh Ministers are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 in relation to the prevention, reduction and management of waste(3).

In accordance with section 98(3) of the Marine and Coastal Access Act 2009, the Natural Resources Body for Wales consents to the making of this Order.

Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the Marine Licensing (Delegation of Functions) (Wales) Order 2013.

(1) 2009 p.23.

(2) 1972 p.68.

(3) Erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/1552).

(1) 2009 c.23.

(2) 1972 c.68.

(3) Article 3 of the European Communities (Designation) (No.2) Order 2010 (S.I. 2010/1552).

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

Cymhwyso

2.—(1) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy a Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1) ac mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at "yr awdurdod trwyddedu" i'w darllen yn unol â hynny.

(2) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn gymwys o ran unrhyw swyddogaeth sydd wedi ei heithrio o fewn ystyr adran 98(6) o'r Ddeddf honno.

Dynodi

3.—(1) Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) wedi eu dynodi at ddibenion adran 98(1)(a) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

(2) Y swyddogaethau yw unrhyw swyddogaeth yr awdurdod trwyddedu o dan—

- (a) Rhan 4 o'r Ddeddf honno (adrannau 65 i 115 ac Atodlenni 7 i 9);
- (b) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011(2);
- (c) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011(3);
- (d) Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(4), ac eithrio unrhyw swyddogaeth yr awdurdod trwyddedu o dan erthygl 5;
- (e) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011(5), fel y'u diwygiwyd gan erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn.

(2) This Order comes into force on 1 April 2013.

Application

2.—(1) This Order applies in relation to any licensable marine activity for which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1) and references in this Order to "the licensing authority" are to be read accordingly.

(2) Nothing in this Order applies in relation to any excepted function within the meaning of section 98(6) of that Act.

Designation

3.—(1) The functions referred to in paragraph (2) are designated for the purposes of section 98(1)(a) of the Marine and Coastal Access Act 2009.

(2) The functions are any function of the licensing authority under—

- (a) Part 4 of that Act (sections 65 to 115 and Schedules 7 to 9);
- (b) the Marine Licensing (Application Fees) (Wales) Regulations 2011(2);
- (c) the Marine Licensing (Register of Licensing Information) (Wales) Regulations 2011(3);
- (d) the Marine Licensing (Exempted Activities) (Wales) Order 2011(4), except any function of the licensing authority under article 5;
- (e) the Marine Licensing (Appeals Against Licensing Decisions) (Wales) Regulations 2011(5), as amended by article 6 of this Order.

(1) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn cysylltiad ag unrhyw beth a wneir wrth gyflawni gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau pan yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 322(1) i gael y diffiniad o "Welsh inshore region".

(2) O.S. 2011/555 (Cy.78).

(3) O.S. 2011/557 (Cy.79).

(4) O.S. 2011/559 (Cy.81).

(5) O.S. 2011/925 (Cy.134). Mae rhai swyddogaethau penodol sy'n ymwneud ag apelau o dan reoliadau 4(1), 5(1), (4) a (5), 6, 8(8) a 18(4) yn swyddogaethau Gweinidogion Cymru, yn hytrach na'r awdurdod trwyddedu ac, yn unol â hynny, maent y tu allan i gwmpas y dynodiad o dan y Gorchymyn hwn.

(1) By virtue of section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009, the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority as respects anything done in the course of carrying on licensable marine activities in relation to Wales and the Welsh inshore region other than activities for which the Secretary of State is the appropriate licensing authority under section 113(4)(a) and (5) of that Act. *See* section 322(1) for a definition of the Welsh inshore region.

(2) S.I. 2011/555 (W.78).

(3) S.I. 2011/557 (W.79).

(4) S.I. 2011/559 (W.81).

(5) S.I. 2011/925 (W.134). Certain functions relating to appeals under regulations 4(1), 5(1), (4) and (5), 6, 8(8) and 18(4) are functions of the Welsh Ministers, rather than the licensing authority, and accordingly fall outside the scope of the designation under this Order.

Dirprwyo i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru

4. Mae'r swyddogaethau sydd wedi eu dynodi gan erthygl 3, yn hytrach na bod yn arferadwy gan yr awdurdod trwyddedu, neu mewn perthynas ag ef, yn arferadwy gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

Diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

5.—(1) Mae erthygl 5 o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraffau (4) a (5), yn lle “awdurdod trwyddedu” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

Diwygiad canlyniadol i Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011

6.—(1) Mae rheoliad 6 o Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Daw'r rheoliad hwnnw'n baragraff (1) yn y rheoliad hwnnw.

(3) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(2) Rhaid i berson sy'n anfon hysbysiad apêl at Weinidogion Cymru anfon, ar yr un adeg, gopi o'r hysbysiad hwnnw at yr Awdurdod Trwyddedu.”

Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion

7.—(1) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr “y dyddiad effeithiol” yw 1 Ebrill 2013;

(b) ystyr “swyddogaeth berthnasol” yw unrhyw swyddogaeth sydd, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn, yn dod yn arferadwy ar y dyddiad effeithiol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

(2) Caniateir i unrhyw beth (gan gynnwys, heb gyfyngiad, achosion cyfreithiol) sydd, ar y dyddiad effeithiol, yn y broses o gael ei wneud gan yr awdurdod trwyddedu, neu mewn perthynas ag ef, wrth arfer swyddogaeth berthnasol, neu mewn cysylltiad â hi, gael ei barhau gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, yn gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

(3) Mae unrhyw beth a wneir gan yr awdurdod trwyddedu, neu mewn perthynas ag ef, cyn y dyddiad effeithiol wrth arfer swyddogaeth berthnasol, neu mewn cysylltiad â hi fel arall, i gael effaith, i'r graddau y bo angen hynny er mwyn parhau ei effaith ar ac ar ôl y dyddiad hwnnw, fel petai wedi ei wneud gan Gorff

Delegation to the Natural Resources Body for Wales

4. The functions designated by article 3, instead of being exercisable by or in relation to the licensing authority, are exercisable by or in relation to the Natural Resources Body for Wales acting on behalf of the licensing authority.

Amendment of the Marine Licensing (Exempted Activities) (Wales) Order 2011

5.—(1) Article 5 of the Marine Licensing (Exempted Activities) (Wales) Order 2011 is amended as follows.

(2) In paragraphs (4) and (5), for “licensing authority” substitute “Natural Resources Body for Wales”.

Consequential amendment of the Marine Licensing (Appeals Against Licensing Decisions) (Wales) Regulations 2011

6.—(1) Regulation 6 of the Marine Licensing (Appeals Against Licensing Decisions) (Wales) Regulations 2011 is amended as follows.

(2) That regulation becomes paragraph (1) of that regulation.

(3) After paragraph (1) insert—

“(2) A person who sends notice of an appeal to the Welsh Ministers must, at the same time, send a copy of that notice to the Licensing Authority.”

Transitional Provisions and Savings

7.—(1) In this article—

(a) “the effective date” means 1 April 2013;

(b) “relevant function” means any function which, by virtue of any provision made by this Order, becomes exercisable on the effective date by the Natural Resources Body for Wales.

(2) Anything (including, without limitation, legal proceedings) which, at the effective date, is in the process of being done by or in relation to the licensing authority in the exercise of, or in connection with, a relevant function may be continued by or in relation to the Natural Resources Body for Wales acting on behalf of the licensing authority.

(3) Anything done by or in relation to the licensing authority before the effective date in the exercise of, or otherwise in connection with, a relevant function is, so far as is required for continuing its effect on and after that date, to have effect as if done by or in relation to the Natural Resources Body for Wales acting on behalf

Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef,
yn gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

of the licensing authority.


John Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un
o Weinidogion Cymru

26 Chwefror 2013

Minister for Environment and Sustainable
Development, one of the Welsh Ministers

26 February 2013

© Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office
Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei
Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the
authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's
Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 Rhif 414 (Cy.50)

2013 No. 414 (W.50)

**TRWYDDEDU (MOROL),
CYMRU**

**LICENSING (MARINE),
WALES**

**RHEOLI MOROL,
CYMRU**

**MARINE MANAGEMENT,
WALES**

Gorchymyn Trwyddedu Morol
(Dirprwyo Swyddogaethau)
(Cymru) 2013

The Marine Licensing (Delegation
of Functions) (Wales) Order
2013